

Marwolaethau cysylltiedig â gwaith:

Cyfarwyddyd ar amseru camau cyfreithiol mewn achos o farwolaeth sy'n gysylltiedig â'r gwaith

(Lloegr a Chymru)



Cyflwyniad

Mae'r protocol marwolaethau cysylltiedig â gwaith (WRDP) yn rhoi cyfarwyddyd o ran pryd y dylai awdurdod gorfodi perthnasol,¹ fel y'u diffinnir yn y protocol, gychwyn camau cyfreithiol yng nghyswllt cwest sydd i'w gynnal i farwolaeth gan grwner.

Disgrifiwyd y cyfarwyddyd sy'n bodoli ym mharagraff 10.3 o'r WRDP a nododd:

- 10.3 *Pan fydd y CPS wedi adolygu'r achos a phenderfynu peidio ag erlyn, bydd HSE, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn aros am ganlyniad cwest y crwner cyn gwneud cyhuddiad o unrhyw droseddau iechyd a diogelwch, oni bai y byddai aros yn niweidio'r achos. Pan fydd hi, yn dilyn cwest, ymchwiliad cyhoeddus, adolygiad barnwrol neu gamau cyfreithiol eraill, yn angenrheidiol i'r CPS adolygu neu ail adolygu'r achos, bydd yr HSE, yr awdurdod lleol, neu awdurdod gorfodi arall yn aros nes bydd yr adolygiad gan y CPS wedi cael ei gwblhau cyn cychwyn neu barhau ei gamau cyfreithiol ei hun.*

Ar ôl trafodaethau ac ymgynghori addas mae'r ddarpariaeth hon yn yr WRDP yn awr wedi ei newid i nodi:

- 10.3 *Pan fydd yr awdurdod gorfodi perthnasol wedi cwblhau ymchwiliad, bydd yn ystyried a yw'n addas gwneud cyhuddiad o unrhyw droseddau iechyd a diogelwch ar y cyfnod hwn, neu aros am ganlyniad cwest y crwner cyn gwneud y penderfyniad hwnnw. Wrth wneud y penderfyniad byddant yn ymgynghori, fel sy'n briodol, â'r heddlu, y CPS, y crwner, teulu'r ymadawedig ac unrhyw berson arall a allai fod â diddordeb cyfreithlon.*

Rhydd hyn ddewis eang i awdurdodau gorfodi perthnasol i wneud penderfyniadau addas o achos i achos. Ond, rhaid ystyried, ym mhob achos y posibilrwydd y bydd erlyniad o'r fath yn golygu y bydd yn atal unrhyw gamau cyfreithiol canlynol am droseddau difrifol (heblaw troseddau iechyd a diogelwch) fel dynladdiad (gweler R v Beedie (1992) CAR 1). Mewn geiriau eraill, dylai pwyslais unrhyw benderfyniad fod ar ystyried y risg y bydd symud ymlaen i erlyn am droseddau iechyd a diogelwch cyn cwest yn medru cael effaith ar unrhyw benderfyniad wedyn gan y CPS i ddwyn erlyniad am ddynladdiad neu droseddau difrifol eraill.


Bwriadwyd y cyfarwyddyd hwn i gynorthwyo rheoleiddwyr i wneud y penderfyniadau hyn mewn achosion unigol.

¹ Mae awdurdod gorfodi perthnasol yn golygu'r rheoleiddiwr iechyd a diogelwch sydd â chyfrifoldeb am y gweithgarwch neu'r gweithle dan sylw ac mae'n cynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR), awdurdodau lleol, yr Asiantaeth Morol a Gwylwyr y Glannau (MCA) a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Cyfarwyddyd

- 1 Dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol fod â threfniadau rheoli mewnol addas yn eu lle i sicrhau bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar y lefel addas gan uwch reolwr a bod penderfyniadau o'r fath ar sail cyngor cyfreithiol.
- 2 Ni ddylid gwneud penderfyniad i ddwyn camau troseddol am droseddau iechyd a diogelwch cyn cwest heblaw bod y gofynion cyswllt a nodir yn yr WRDP wedi cael eu dilyn a bod yr heddlu a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) wedi ymwneud â'r achos.
- 3 Dylai'r prif gyfrifoldeb am yr ymchwiliad fod wedi cael ei drosglwyddo yn ffurfiol oddi wrth yr heddlu i'r awdurdod perthnasol a'i gofnodi yn ysgrifenedig.
- 4 Ni ddylid penderfynu dwyn camau troseddol am droseddau iechyd a diogelwch cyn cwest oni bai bod yr awdurdod gorfodi perthnasol yn fodlon bod:
 - (a) pob ymchwiliad rhesymol wedi cael ei gwblhau;
 - (b) yr holl ddeunydd sydd ar gael ac sy'n berthnasol wedi cael ei gasglu; ac
 - (c) ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw ddeunydd perthnasol ychwanegol yn dod i'r golwg mewn cwest a fyddai'n cael effaith wirioneddol ar y penderfyniad hwnnw.
- 5 Cyn gwneud penderfyniad terfynol i gychwyn camau cyfreithiol am droseddau iechyd a diogelwch mae'n bwysig bod ymgyngori ag eraill sydd â diddordeb cyfreithlon yn digwydd. Os yw'r prif gyfrifoldeb wedi cael ei drosglwyddo o'r heddlu i'r awdurdod gorfodi perthnasol heb i'r CPS ymwneud â'r achos, dylid ymgyngori â'r heddlu cyn gwneud y penderfyniad terfynol i erlyn cyn y cwest. Os yw'r prif gyfrifoldeb wedi cael ei drosglwyddo o'r awdurdod gorfodi perthnasol ar ôl i'r CPS roi cyngor i'r heddlu ar gychwyn yr ymchwiliad neu gynnal adolygiad llawn o'r dystiolaeth, dylid ymgyngori â'r CPS.
- 6 Ym mhob achos dylid ymgyngori â'r crwner cyn gwneud penderfyniad. Dylai unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod gorfodi ystyried y ffactorau canlynol:
 - (a) Pa oedi all ddigwydd o ran y gwrandawriad i unrhyw gwest?
 - (b) A fydd y crwner yn gohirio'r cwest os bydd camau troseddol am droseddau iechyd a diogelwch wedi cael eu cychwyn?
 - (c) Barn unrhyw unigolyn sydd â diddordeb priodol.
- 7 Yn gyffredinol, ni fyddai'n addas cychwyn camau cyfreithiol am droseddau iechyd a diogelwch os nad yw'r crwner yn fodlon gohirio'r cwest nes bydd y camau hynny wedi eu cwblhau. Hefyd, ni fyddai'n addas cychwyn y camau hynny os gellid cynnal cwest mewn cyfnod byr ac na fyddai hyn yn niweidio'r hawl i achos teg oherwydd oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: www.hse.gov.uk/pubns/wrdp3w.pdf

©  *Hawlfraint y Goron* Os dymunwch ail ddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/information-management/our-services/crown-copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd yn gyntaf 09/11

Cyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol am y protocol
Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith (Lloegr a Chymru) WRDP3W 09/11